**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Gwener, 12 Chwefror 2021 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | J P Curtice | N J Davies |
| P Downing | S J Gallagher | P Lloyd |
| H M Morris | C L Philpott | B J Rowlands |
| L G Thomas | L V Walton | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Lynda Anthony | Swyddog Adrannol, Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch |
| Lyndsay Thomas | Prif Gyfreithiwr |
| Richard Jenkins | Licensing Officer |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

---

**15 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**16 Cofnodion:**

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2020 yn gofnod cywir.

**17 Gwahardd y cyhoedd.**

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol, fel y'i nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

(Sesiwn Gaeëdig)

**18 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Tref 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 -- Trwydded Cerbyd Hacni a Gyrrwr Hurio Preifat - MRS**

Manylodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â MRS.

Esboniodd MRS yr amgylchiadau mewn perthynas â'r euogfarn ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd** atal y Trwyddedau Gyrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat a gedwir gan MRS am gyfnod o 3 mis.

**Rheswm dros y Penderfyniad**

Nid oedd MRS wedi sicrhau'r aelodau ei fod yn berson diogel ac addas i gadw'r drwydded dan adrannau 3.26, 3.30, 4.14 a 4.17 o'r arweiniad ar benderfynu ar addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwydded yn y busnes cerbydau hacni a hurio preifat.

**19 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Tref 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 -- Trwydded Cerbyd Hacni a Gyrrwr Hurio Preifat - VM.**

Dywedodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch nad oedd VM, oherwydd salwch, yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod a'i fod wedi gofyn i'r eitem gael ei gohirio i gyfarfod yn y dyfodol.

**Penderfynwyd** gohirio'r eitem tan gyfarfod yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.58 am

**Cadeirydd**